Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru ym Met Caerdydd

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac yn rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Mae pob swydd ym Met Caerdydd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'Hanfodol' neu 'Ddymunol' (ar lefel 'A1 - Dechreuwr' o leiaf), a gofynnir i bob aelod o staff gwblhau e-fodiwl byr am y Gymraeg a Diwylliant Cymru ym Met Caerdydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu gyda ni.

Mae Met Caerdydd wedi bod yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ers dros 60 mlynedd. Mae mwyafrif ein cyrsiau ar hyn o bryd yn cynnig o leiaf traean o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae gennym arweinydd Cymraeg strategol ym mhob ysgol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae galw cynyddol am sgiliau Cymraeg yn y gweithlu a'n nod yw bod 30% o'n myfyrwyr â sgiliau Cymraeg yn astudio o leiaf traean o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030 ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol ac yn gymdeithasol.

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi pobl fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd. Mae Safonau'r Gymraeg yn rhoi'r hawl i bobl dderbyn gwasanaethau gan Met Caerdydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith yng Nghymru ac mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gwneud hyn a'n gwasanaethau Cymraeg i'w gweld yn ein Polisi Iaith Gymraeg.

Yn ogystal â hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg, rydym hefyd yn annog ein staff a'n myfyrwyr i ddefnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg a hybu eu hyder yn yr iaith. Mae gan Met Caerdydd gymuned Gymraeg fywiog o staff a myfyrwyr, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Rydym wedi ymrwymo i greu awyrgylch croesawgar a chynhwysol, ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ymhlith ein holl staff, myfyrwyr a'r cyhoedd sy'n ymgysylltu â ni.

**Rydym yn cynnig y cyfleoedd canlynol i'n staff:**

- Cefnogaeth i ddysgu a defnyddio Cymraeg sylfaenol yn y gweithle.
- Gwersi Cymraeg rhad ac am ddim yn ystod amser gwaith ar bob lefel, o ddechreuwyr pur hyd at siaradwyr rhugl a hoffai gael mwy o hyder i ddefnyddio'r iaith neu sydd eisiau canolbwyntio ar loywi eu Cymraeg ysgrifenedig.
- Cefnogaeth cyfieithu a phrawfddarllen yn ogystal â chymorth gyda Chymraeg ysgrifenedig.
- Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg eraill ac i glywed am holl newyddion Cymraeg Met Caerdydd drwy ymuno â'n Rhwydwaith Staff Cymraeg.
- Gweithgareddau Cymraeg anffurfiol fel ein Côr Cymreig a gwahoddiad i ddathlu digwyddiadau cenedlaethol pwysig gyda ni.